








**CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN/A42 – ANIFEILIAID DI-ASGWRN-CEFN  
CARMARTHENSHIRE S42/BAP – INVERTEBRATES**




**AMCANION CYFFREDINOL**

- Canfod safleoedd newydd ar gyfer arolygon yn y sir.
- Annog diddordeb gwirfoddolwyr yn yr amrywiaeth o anifeiliaid di-asgwrn-cefn a geir yn y sir.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ffocws ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd/ag ysgolion.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau hyn a'r materion sy'n effeithio arnynt.

RHYWOGAETH/ SPECIES	FFOTO/ PHOTO	CYNEFIN/SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN HABITAT/CARMS SITES	PROBLEMAU/CAMAU GWEITHREDU SY'N OFYNNOL ISSUES/ACTION REQUIRED
<p><i>Asilus crabroniformis</i> Hornet robberfly Pryf llofrudd</p> <p>© Sam Bosanquet</p>	 <p>25 mm</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Glaswelltir isel a Rhostir</li> <li>• Rhywogaeth sydd wedi colli llawer o dir ar borfeydd heb eu gwella sy'n cael eu pori gan wartheg neu geffylau. Bellach mae'n brin iawn yn Sir Gaerfyrddin.</li> <li>• Fe'i cofnodwyd ddiwethaf yn 1997, ond mae'n bosibl ei fod yn goroesi mewn ambell un o'r niferoedd bychain o borfeydd heb eu gwella sydd yn y sir.</li> <li>• Mae'n hedfan ddiwedd yr haf (Gorffennaf – dechrau Medi)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Heblaw am golli ei gynefin, mae wedi dioddef effaith ddifrifol yn sgil defnyddio 'ivermectins' (a meddyginiaethau eraill i anifeiliaid) i reoli clêr llwyd ac ati ymhlith ceffylau a pharasitiaid mewnol eraill ymhlith gwartheg. Caiff y cemegion hyn eu hysgarthu yn y tail, ac maent yn lladd larfae'r chwilod tail y mae larfae'r <i>Asilus</i> yn eu bwyta.</li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> <li>• Cyfle i gynnal arolwg cyfranogiad y cyhoedd.</li> </ul>
<p><i>Bembidion quadripustulatum</i> Scarce Four-dot Pin-palp Chwilen ddaear</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• I'w chanfod ar landiroedd gwlyptir, gan gynnwys tywod moel, mwd neu landir clai a sialc, glandiroedd ffen llawn llystyfiant, a glandiroedd morlyn silt noeth.</li> <li>• Cafwyd hyd iddi ar lannau afon Tywi ger Llandeilo yn 1996.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Bidessus minutissimus</i> Minutest Diving Beetle Chwilen blymio</p> <p>© Ymddiriedolwyr Amgueddfa Byd Natur, Llundain</p>	 <p>1.5 mm</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannau isaf afonydd mewn cysylltiad â glannau tywod a gro mân.</li> <li>• Cofnod yn 1950 ar Bont Llangadog, Afon Tywi, Llangadog.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> <li>• Y dull orau o'i diogelu yw cynnal cynefin addas fel rhan o SoDdA/AGA Afon Tywi.</li> </ul>
<p><i>Bombus humilis</i> Brown-banded Carder-bee Cardwenynen Lwydfrown</p> <p>© BCT</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Glaswelltir a Rhostir Isel/Arfordirol</li> <li>• Cofnodion o arfordir Sir Gaerfyrddin – Twyni Pen-bre ac Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Penclacwydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y ffactor allweddol o ran y dirywiad yn nifer ein gwenyn fu colli cynefinoedd sydd â chyfoeth o flodau, yn enwedig dolydd blodau gwyllt a phorfeydd. Mae nifer o faterion eraill sy'n effeithio ar wenyn (e.e. plaleiddiaid, clefydau, feirysau, mewnfridio ac ati), sy'n ychwanegu at y broblem.</li> <li>• Mae cyngor ar reoli cynefinoedd i wenyn ar gael yn: <a href="http://bumblebeeconservation.org/get-involved/managing-your-land/">http://bumblebeeconservation.org/get-involved/managing-your-land/</a></li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>

RHYWOGAETH/ SPECIES	FFOTO/ PHOTO	CYNEFIN/SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN HABITAT/CARMS SITES	PROBLEMAU/CAMAU GWEITHREDU SY'N OFYNNOL ISSUES/ACTION REQUIRED
<p><i>Bombus ruderarius</i> Red-shanked Carder-bee Cardwenynen Goesgoch</p> <p>© BCT</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cofnodion yn y 1970au o ardal Rhandirmwyn ac un arall o Dwyni Pen-bre yn 1993.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y ffactor allweddol o ran y dirywiad yn nifer ein gwenyn fu colli cynefinoedd sydd â chyfoeth o flodau, yn enwedig dolydd blodau gwyllt a phorfeydd. Mae nifer o faterion eraill sy'n effeithio ar wenynd (e.e. paleiddiaid, clefydau, feirydau, mewnfriedio ac ati), sy'n ychwanegu at y broblem.</li> <li>• Mae cyngor ar reoli cynefinoedd i wenynd ar gael yn: <a href="http://bumblebeeconservation.org/get-involved/managing-your-land/">http://bumblebeeconservation.org/get-involved/managing-your-land/</a></li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Cylindera germanica</i> Cliff tiger beetle Chwilen deigr</p> <p>© Roger Key</p>	 <p>8–11 mm</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r rhywogaeth yn dibynnu ar lithriadau tir sy'n datgelu clogwyni moel/pridd newydd, ac ni cheir fawr ddim cynefin felly yn Sir Gaerfyrddin.</li> <li>• Cofnod yn 1954 o'r Graig Ddu – clogwyni Pwynt Wharley o'r gorllewin o Lansteffan.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Dipoena inornata</i> Silky Gallows-spider Codyn/corryn coes gribog</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arfordirol – rhywogaeth sy'n bodoli ar laswelltir sych, graean ac ar yr arfordir. Hefyd, fel y mwyafrif o gorynnod, ni cheir cofnodion digonol, ac nid yw ei statws gwirioneddol yn hysbys.</li> <li>• Cofnod yn 1991 o arfordir Sir Gaerfyrddin ym Mhwynt Dolwen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Hydroporus rufifrons</i> Oxbow Diving Beetle Chwilen blymio</p> <p>© Ymddiriedolwyr Amgueddfa Byd Natur, Llundain</p>	 <p>4-5 mm</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwlyptir/Dŵr Croyw – dyfroedd bas a thros dro mewn hen systemau ystumlllyn, porfeydd heb eu gwella, corstiroedd, ffeniau a systemau twyni.</li> <li>• Cofnod yn 1959 o ddyfrffos y castell, Cydweli. Gwiriwyd y safle yn 1988, ac ni chafwyd hyd i ddim.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim ond yn yr hydref a'r gwanwyn y mae'r chwilog llawn dwf yn actif, felly mae'n bosibl na fydd arolygon yn sylwi arnynt.</li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Lipsothrix nervosa</i> Southern Yellow Splinter Pryf teiliwr gïeug</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwlyptir/coetir – brigau a changhennau gwlyb sy'n pydru mewn mannau lle ceir tryddiferu mewn coetir llydanddail. Credir bod angen cysgod parhaus a chyflenwad di-dor o bren sy'n pydru.</li> <li>• Cofnod yn 1996 o Barc Ceirw Dinefwr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eithriadol o fregus yn sgil ei gynefin arbenigol.</li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Margaritifera margaritifera</i> Freshwater pearl mussel Misglen berlog yr Afon</p> <p>© Pearlsinperil</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dŵr croyw</li> <li>• Daw'r cofnodion diweddaraf o Afon Tywi, ond erbyn heddiw fe'i hystyrir i fod yn diflannu.</li> <li>• Yn flaenorol, fe'i cofnodwyd yn afon Taf yn ogystal.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Nigrobaetis niger</i> Iron Blue Mayfly Gwybedyn Mai haearnlas</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwlyptir/Dŵr Croyw</li> <li>• Cofnod o Afon Tywi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y bygythiadau yw: newidiadau i strwythur a rheolaeth y llystyfiant glandirol a thorlannol; llif isel yn sgil echdynnu; lefelau uchel o silt crog; treillio niweidiol</li> </ul>



RHYWOGAETH/ SPECIES	FFOTO/ PHOTO	CYNEFIN/SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN HABITAT/CARMS SITES	PROBLEMAU/CAMAU GWEITHREDU SY'N OFYNNOL ISSUES/ACTION REQUIRED
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Panagaeus cruxmajor</i> Crucifix ground beetle Chwilen ddaear</p> <p>© Roger Key</p>	 <p>8–10 mm</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arfordirol (Sir Gaerfyrddin) – cofnodwyd mewn llac twyni. Yn Ne a Dwyrain Lloegr arferid ei gweld yn lleol mewn cynefinoedd cors a ffen.</li> <li>• Cafwyd hyd iddi ar Bwynt Tywyn ym mis Ebrill 1985 yn dilyn tybiaeth ei bod wedi diflannu o Ynysoedd Prydain (yn Wicken Fen y cafwyd y cofnod olaf). Fe'i gwelwyd ers hynny, yn ystod arolygon yn gynnar yn y 1990au, ond collwyd y llac newydd, olyniaeth gynnar, yn sgil erydiad, er y gallai ddigwydd o hyd.</li> <li>Ers hynny cafwyd hyd iddi mewn llond dwrn o safleoedd eraill ym Mhrydain a Gogledd Iwerddon; mae'n bosibl ei bod yn gysylltiedig â rhai rhywogaethau o chwilog chrysomelid (<i>Cassida</i> spp?) mewn sefyllfaoedd gwlyb. Fe'i cofnodwyd yng ngogledd Gŵyr yn 1933, ac mae'n bosibl iawn ei bod ar safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn, lle ceir cynefin ffen gwlyb helaethach.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae anawsterau mynediad wedi golygu bod y cofnodi achlysurol ar Bwynt Tywyn wedi dod i ben.</li> <li>• Colli cynefin llac twyni.</li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Spiriverpa lunulata</i> A fly Cleren</p> <p>© Roger Key</p>	 <p>10-11 mm</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dŵr croyw – mae'n byw ar leiniau dyddodiadol – cysylltiedig â glannau afon tywodlyd.</li> <li>• Cofnodwyd fel cleren newydd i Sir Gaerfyrddin ar dir graeanog Llanwrda yn hwyr yn y 1980au; yma ceir hyd iddi yn y manau tywodlyd oddi mewn i'r cynefin graean, ac mae'n un rhywogaeth yn unig o fewn crynhoad pwysig ar y tir graeanog. Mae'r safle'n rhan o SoDdGA/AGA Afon Tywi, a bu'n destun monitro.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Thinobius newberyi</i> Newbery's Rove Beetle Chwilen grwydr</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dŵr croyw – rhywogaeth danddaearol sy'n byw'n ddwfn yn y gro ar lannau nentydd. Cafwyd hyd iddi o dan gerrig ac ymhlith mân wreiddiau glaswellt ar hyd glannau afonydd a nentydd.</li> <li>• Cafwyd hyd iddi ar lannau Afon Tywi. Fwy na thebyg, ni chafwyd cofnodion digonol, gan ei bod yn fechan iawn, ac yn anodd ei chanfod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ei chynefin mewn perygl yn sgil rheoli afonydd yn uniongyrchol (clirio tywod a graean) neu yn sgil camau gweithredu sy'n effeithio ar brosesau afonol.</li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd a fu'n hysbys gynt a safleoedd newydd posibl.</li> </ul>
<p><i>Vertigo angustior</i> Narrow-mouthed Whorl snail Malwen droellog geg gul</p> <p>© John Harper</p>	 <p>O'r chwith i'r dde <i>Vertigo angustior</i> a <i>V. substriata</i></p> <p><b>DS.</b> Sylwer bod cragen <i>V. angustior</i> yn troelli i'r chwith, tra bod <i>V. substriata</i> yn troelli i'r dde.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lliw melyn-frown golau sydd i'r gragen, gyda llawer o resi twf cul a phum troell. Mae 5-6 dant yng ngheg y gragen, ac mae wedi tewychu. Cragen sinistraidd yw hi, sy'n golygu bod patrwm troellog y corff yn dilyn cyfeiriad clocwedd, ac mae'r geg yn agor ar ochr chwith y corff.</li> <li>• Lled y gragen: 0.9 mm; uchder y gragen: 1.8 mm.</li> <li>• Cafwyd hyd i'r boblogaeth hysbys fwyaf yng Nghymru yng Ngwarchodfa Natur Twyni Whiteford. Yn Sir Gaerfyrddin cafwyd hyd iddi yng Nghoedwig Pen-bre ac ar safle'r Awyrlu Brenhinol ym Mhen-bre. Fel arfer</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n agored i niwed yn sgil newidiadau yn yr amodau hydrolegol, llai o bwysau pori ac amharu ffisegol.</li> <li>• Mae angen arolwg arbenigol i wirio safleoedd newydd posibl.</li> </ul>

RHYWOGAETH/ SPECIES	FFOTO/ PHOTO	CYNEFIN/SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN HABITAT/CARMS SITES	PROBLEMAU/CAMAU GWEITHREDU SY’N OFYNNOL ISSUES/ACTION REQUIRED
	<p>Mae’r <i>angustior</i> a’r <i>substriata</i> yn rhesog, ond mae gwahaniaeth amlwg o ran y ‘patrwm troellog’.</p> <p>Mae’r cregyn tua 1.5mm o hyd ac 1mm o led</p>	<p>mae’n byw yn y rhyngwyneb twyni tywod a chynefinoedd morfa heli uwch, fel yn Nhwyni Whiteford. Yn hanesyddol, roedd y safle y tu ôl i Goedwig Pen-bre lle cafwyd hyd iddi yn gangen o’r môr, h.y. y rhyngwyneb morfa heli-twyni tywod y mae’r rhywogaeth hon yn ei ffafrio.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae’n bosibl bod malwen mor bitw, y mae’n hawdd iawn peidio sylwi arni, yn dal yn bresennol ar y safleoedd olaf hyn yn Sir Gaerfyrddin.</li> </ul>	